Gweithdy Adnoddau Cymunedol –
4 Rhagfyr, 2008

Taflen

1. ADNODDAU CHWARAEON A HAMDDEN

Bydd amrywiaeth o adnoddau chwaraeon a ffitrwydd yn cael eu darparu fel rhan o'r prosiect ailddatblygu.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwll nofio wyth lon 25m wedi ei adeiladu i safon cystadlaethau'r Gymdeithas Nofio Amatur

- Canolfan chwaraeon yn cynnwys deuddeg cwrs chwaraeon a dau gwrt sboncen

- Ystafell ffitrwydd gydag offer cardiofasgwlaidd ac ardal codi pwysau am ddim

- Trac athletau wyth lon gyda llifoleuadau

- Deuddeg maes chwarae awyr agored:

1 Maes Rygbi, Porfa, Llifoleuadau
4 Meysydd Rygbi, Porfa, heb lifoleuadau
1 Maes hoci, Synthetig, Llifoleuadau
1Maes Pêl-droed, Synthetig, Llifoleuadau
1 Maes Pêl-droed, Porfa, Llifoleuadau
4Maes Pêl-droed. Porfa, heb lifoleuadau
1 Sgwâr Criced, Porfa
8 Net Criced, Synthetig

Mae amseroedd agor i'r cyhoedd a phrisiau i'w trafod.

2. ADNODDAU SIOPA

Bwriedir cadw adnoddau siopa ar safle siop Spar. Mae natur y ddarpariaeth yn cael ei drafod ar hyn o bryd rhwng Metrix, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

3. SANT BREWIS

Mae cynlluniau ar gyfer y safle yn cynnwys adferiad posib o eglwys Sant Brewis ar ochr dde Eglwys Brewis Road. Bwriedir y bydd y cynlluniau yn diogelu cadwraeth ac adferiad yr adeilad yn yr hir dymor ond nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto ynglŷn ag ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio yn y pen draw.

4. AMGUEDDFA

Mae cynlluniau ar gyfer y safle'n cynnwys amgueddfa filwrol (REME – Peirianwyr Trydanol a Mecanyddol Brenhinol) a fyddai ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr amgueddfa'n symud o'i lleoliad presennol yn Arborfield, ger Reading.

5. CANOLFAN FFYDD

Yn ogystal ag adferiad posib Sant Brewis, bydd Canolfan Ffydd newydd yn cael ei hadeiladu yn agos at Sant Brewis, y tu allan i'r wifren ddiogelwch, Bydd y ganolfan ar gael at ddefnydd y gymuned ehangach.

6. CRÈCHE

Darparir crèche, er nad yw'r lleoliad wedi ei gytuno eto. Bydd y crèche yn diwallu anghenion y boblogaeth filwrol ond bydd cyfle i'r gymuned ehangach ei ddefnyddio os bydd llefydd gwag ar gael.

-gorffen-